

COFNODION CYNGOR CYMUNED LLANYNYS A GYNHALIWIWDYD AR NOS
FAWRTH 14EG O DACHWEDD 2017 YN YSGOL GYNRADD RHEWL AM 7.30 O'R
GLOCH.

PRESENNOL: Y Cynghorwyr Ian Hession (Cadeirydd), Siân Davies, Clwyd Thomas, Iona Jones, Mike Denman, Brynle Lloyd, Arwel Jones, Wyn Wilkinson, Cynghorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry a'r Clerc.

1: YMDDIHEURIADAU: Y Cynghorydd Dewi Roberts.

2. DDATGAN DIDDORDEB.

Y Cynghorwyr Mike Denman a Ian Hession are item 6 isod.

3. CADARNHAU COFNODION BLAENOROL Y CYNGOR.

Cadarnhawyd cofnodion 12fed o Fedi 2017 a'u harwyddwyd gan y Cadeirydd.

4. MATERION YN CODI O'R COFNODION.

Gan fod y Clerc yn dal i ddisgwyl ymateb oddi wrth Swyddog Llwybrau Cyhoeddus am gopi o'r mapiau "Llwybrau Cyhoeddus" Gymuned Llanynys, cytunodd y Cynghorydd Sir Ddinbych, Merfyn Parry, ofyn am gopi o'r "Llwybrau Cyhoeddus".

5. CYLLID.

A. Datganiad Banc - £8,485.00.

B. Taliadau:-

1. Swyddfa Archwilio Cymru – Ffi Archwilio Allanol Cyfrifon am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2017 - £1184.95.

2. Cyflog y Clerc am y chwarter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2017 - £400.00.

3. Treth y cyflog am y charter yn diweddu 31ain o Rhagfyr 2017 - £100.00.

C. Derbyniwyd Cyfrifon y Cyngor am y flwyddyn yn diweddu 31ain o Fawrth 2017 wedi e'i archwilio gan yr Archwiliwr Allanol y Cyngor – BDO o Southampton.

6. CAIS AM GEFNOGAETH ARIAN ODDI WRTH "LLANYNYS COMMUNITY
PLAYING FIELDS ASSOCIATION".

Derbyniwyd cais am gefnogaeth arian gan Bwyllgor "Llanynys Community Playing Fields Association" am gefnogaeth ariannol o £1,388.49 tuag at gostau blynyddol yswiriant y mudiad. Ar ôl trafodaeth penderfynwyd peidio ag cefnogi'r cais oherwydd rhoddion hael gan y Cyngor i'r mudiad dros y ddwy flynedd flaenorol.

7. TARGED Y GYMUNED I'R EISTEDDFOD YR URDD SIR DDINBYCH 2020.

Derbyniwyd adroddiad y Cynghorydd Siân Davies fod targed y gymuned leol i'r Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych 2020 ydy £5,000.00. Mi fydd Pwyllgor lleol yn cael ei sefydlu ac mi fydd yna gais am gefnogaeth arian i'r Cyngor Cymuned gan y Pwyllgor lleol dros dair blynedd ariannol y Cyngor. Penderfynwyd ystyrid y cais ariannol ar ôl derbyn cais am gefnogaeth swyddogol i'r Cyngor.

8. MATERION CYNLLUNIO.

A. Mae Cyngor Sir Ddinbych wedi caniatáu'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Codi adeilad ciwbiciau buwch Ilaeth ac estyniad iard chasglu yn Bod Ynys, Rhewl.
2. Codi estyniad i gefn yr annedd yn Old School House, Rhewl.

B. Nid oedd gan yr aelodau unrhyw wrthwynebiad i'r ceisiadau cynllunio canlynol:-

1. Tystysgrif ddatblygu gyfreithlon bresennol ar gyfer newid defnydd tir drwy leoli carafán er mwyn darparu llety gwyliau ym Mhantglas Ganol, Bontuchel.
2. Codi estyniad unllaw'r i ochr yr annedd yn The Grove, Rhewl.

9. GOHEBIAETH.

Derbyniwyd nifer o adroddiadau er wybodaeth.

10. MATERION CYNGOR SIR DDINBYCH.

Derbyniwyd gwybodaeth/trafodaeth gyda'r Cyngorydd Sir Ddinbych Merfyn Parry ynglŷn ar ganlynol:-

A: Dal i ddisgwyl cadarnhad y Cyngor Sir ynglŷn ar berchnogaeth y llochesi fysiau ar y A525 yn Rhewl.

B. Chadarnhawyd yr aelodau'r ffyrdd canlynol i'w ystyried am wariant cyfalaf yn ystod y flwyddyn ariannol 2018/19:-

1. Ffordd heibio Pant Glas Isa' a Phant Glas Canol ym Montuchel.
2. Gwaith ar y ffordd rhwng Plas-yr-Esgob a Bod Ynys, Rhewl (heibio Penfforddwr).
3. Gwaith draenio ar y ffordd heibio Plas Einws a Plas-y-Ward yn Rhewl.

C. Edrych i mewn i fabwysiaidau'r Bocs Ffon Gyhoeddus Goch yn Llanynys.

D. Eisiau trwsio'r sedd fainc gyhoeddus wrth stad Dolydd yn Rhewl. Cytunodd y Cyngorydd Ian Hession i ofyn i Arfon Parry am bris i drwsio'r sedd.

E. Mae plât lleoliad Llanynys ar goll wrth Llawog. Penderfynwyd y Clerc wneud ymholiadau gyda'r Cwmni Yswiriant y Cyngor ynglŷn â chais yswiriant am ad-daliad i'r arwydd newydd.

F. Ar ôl adolygiad mae'r Cyngor Sir yn cwtdogi nifer o bentanau halen maent yn rhoi ar ochr y ffyrdd oherwydd materion amgylchedd ac i abed arian. Mi fydd gelltydd a throadau yn dal i gael pentanau halen.

11. MATERION BRYD O DAN ADRAN 100B(4) O'R DDEDDF Y LLYWODRAETH LEOL 1972.

Nodwyd mi fydd Ysgol Gynradd Rhewl yn dathlu'r canmlwyddiant yn ystod 2018.

12. CYFARFOD NESAF Y CYNGOR – Nos Fawrth 9fed o Ionawr 2018 yn Ysgol Gynradd Rhewl am 7.30 o'r gloch.